Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD:	**27 Medi 2022**
LLEOLIAD:	**O bell drwy gyfrwng fideo-gynadledda**
TEITL:	**Adroddiad ar y cynnydd gyda Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021-2022 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Rhoi'r diweddaraf ar y cynnydd gyda Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021-2022 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23**
ER:	**Gwybodaeth**

Cefndir

Bu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried adroddiad ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021-2022 a'r ddogfen Fframwaith Llywodraethu, ynghyd â chynllun gweithredu'r flwyddyn bresennol a hynny yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2022.
(gweler yr Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yma https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s3103/Eitem%2013%20Draft%20GFD%20combined%20c.pdf?LLL=1 a Chofnodion y Cyfarfod yma https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=147&MId=351&Ver=4&LLL=0).

Yn y cyfarfod hwn bu i'r Pwyllgor gytuno i argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021-22.

Yn ei gyfarfod ar 8 Gorffennaf 2022 penderfynodd y Cyngor:

a) Nodi cynnwys dogfen Fframwaith Llywodraethu 2021-2022 wedi'i diweddaru; ac
b) Argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021-22.

(gweler yr Adroddiad i'r Cyngor yma https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s3417/Adroddiad%20-%20Datganiad%20Llywodraethu%20Blynyddol.pdf?LLL=1 a Chofnodion drafft y Cyfarfod yma https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=274&Ver=4&LLL=0)

Y Sefyllfa Bresennol

Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021-2022 a gymeradwywyd yn cael ei ystyried erbyn hyn gan Archwilio Cymru cyn ei gyflwyno fel fersiwn derfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Tachwedd 2022 ac i'r Cyngor ar 24 Tachwedd 2022 ar y cyd â'r Datganiad Blynyddol o Gyfrifon.

Fframwaith Llywodraethu 2022-23 a Chynllun Gweithredu'r flwyddyn bresennol

Bydd gweithdy yn cael ei gynnal ar 28 Tachwedd 2022 ar gyfer Swyddogion perthnasol ac Aelodau'r Pwyllgor i ystyried y cynnydd a wnaed ar y camau a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022. Yn ystod y gweithdy hwn bydd y ddogfen Fframwaith Llywodraethu yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gwblhau'r camau hyn. Wedyn bydd y ddogfen ddiweddaredig hon yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ym mis Ionawr.

Bydd y gweithdy hwn hefyd yn gyfle i ystyried unrhyw gamau newydd y mae angen eu hychwanegu at y Ddogfen Fframwaith Llywodraethu, a fydd yn cael eu hystyried wedyn yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23.

Y Côd Llywodraethu Corfforaethol Lleol

Cafodd Côd Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2022-23 ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2022. Mae rhywfaint o waith cychwynnol wedi mynd rhagddo i adolygu'r côd hwn er mwyn sicrhau ei fod yn nodi sut mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn cyfrannu at fodloni'r saith egwyddor ar gyfer llywodraethu da, fel y nodir yn *Delivering Good Governance in Local Government: Framework* (argraffiad 2016) gan CIPFA/SOLACE.

ARGYMHELLIAD:

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

i) Nodi cynnwys yr adroddiad

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD: Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd gyda Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021-2022 a'r camau nesaf ar gyfer y ddogfen Fframwaith Llywodraethu, Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23 a'r Côd Llywodraethu Corfforaethol Lleol.

Atodiadau:	Dim – diweddaru statws yn unig
Pennaeth y Gwasanaeth:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu
Dyddiad:	30/8/2022